



POLISI AMDIFFYN PLANT

Medi 2020

Dyddiad Adolygu
Medi 2021

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Amcanion	4
Egwyddorion	4
Cwmpas	4
Anhysbysrwydd	4
Cyfrinachedd	5
Gweithio mewn partneriaeth	5
Ymwybyddiaeth staff	7
Chwythu'r chwiban	7
Gweithdrefnau'n ymwneud â honiadau diogelu	8
Atodiad 1 – Diffinio camdriniaeth	10
Atodiad 2 – Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr	11
Atodiad 3 – Diogelu yn ystod galwadau fideogynadledda	12
Atodiad 4 – Delio â honiad	14
Atodiad 5 – Pryd I gysylltu â'r heddlu	15
Atodiad 6 – Rheoli honiadau yn erbyn oedolion	16
Atodiad 7 – Cyflwyno atgyfeiriadau diogelu	17
Atodiad 8 – Adnoddau defnyddiol	19
Adolygiad	20

Cyflwyniad

Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaeth uchel i PLANED. Mae'r Polisi Diogelu hwn yn darparu fframwaith ar gyfer pob aelod o staff a phob gwasanaeth yn PLANED, gan bennu cyfrifoldebau'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl; yn ogystal â dulliau a fydd yn rhoi sicrwydd i PLANED ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr, cynrychiolwyr, prosiectau a gwirfoddolwyr PLANED; a hefyd mae'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir gan PLANED. At ddibenion y polisi hwn, caiff 'cynrychiolydd' ei ddiffinio fel y rhai a gyflogir gan PLANED, yn cynnwys gweithwyr parhaol a dros dro, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau cyflogi, contractwyr ac ymgynghorwyr.

Mae diogelu yn fater i bawb, pa un a ydynt yn gweithio i PLANED neu'n gweithio ar ran PLANED.

Mae PLANED wedi ymrwmo i Ddatganiad o Hawliau Dynol 1945, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl hŷn, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod y polisi hwn yw ategu, cryfhau ac adeiladu ar arferion diogelu cyfredol yng Nghymru, fel y'u nodir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc fyw eu bywydau i'r eithaf. Nid yw'r polisi hwn yn anelu at ddisodli unrhyw gyfrifoldebau a bennir eisoes mewn deddfwriaethau, polisiau neu ganllawiau.

Mae PLANED yn cadw at y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan hynny sydd wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR).

Mae gan PLANED Uwch-berson Dynodedig ar gyfer diogelu, ac mae'r uwch-berson hwn wedi cael hyfforddiant perthnasol;

Mae PLANED:

- yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob ymddiriedolwr:
 - yn gwybod beth yw enw a rôl yr Uwch-berson Dynodedig a'r ymddiriedolwr dynodedig dros ddiogelu;
 - yn gwybod bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros gyfeirio pryderon ynghylch diogelu, gan ddilyn prosesau a phrotocolau lleol;
 - yn gwybod sut i gyfeirio pryderon pan na fo'r Uwch-berson Dynodedig ar gael;
- yn sicrhau bod ei staff i gyd yn gwybod am arwyddion camdriniaeth, eu bod yn effro i'r arwyddion hyn, a'u bod hefyd yn gwybod sut i ymateb i unrhyw plentyn a all wneud honiad;
- yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr wedi rhoi caniatâd i unrhyw blentyn dan 18 oed gymryd rhan yn un o ddigwyddiadau PLANED pan na fo'r rhieni/gofalwyr yn mynychu;
- yn sicrhau bod yr holl staff yn mynd i'r afael ag unrhyw hyfforddiant diogelu y cytunwyd arno ac sy'n berthnasol i'w rôl;
- yn cyflwyno sesiynau briffio rheolaidd yn ymwneud â diogelu i'r holl staff yn sôn am y canlynol:
 - eu cyfrifoldeb personol dros ddiogelu;
 - gweithdrefnau atgyfeirio diogelu lleol;
 - canfod camdriniaeth ac esgeulustod;
 - sut i gynorthwyo plentyn sy'n honni ei fod wedi'i gam-drin;
 - unrhyw wybodaeth neu weithdrefnau newydd yn ymwneud â diogelu;

- yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon yn ymwneud â phlant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan na fo angen cyfeirio'r mater at y Tîm Asesu Gofal Plant yn syth;
- yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo;
- yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu llunio yn unol â phrotocolau'r awdurdod lleol
- yn penodi ymddiriedolwr dros ddiogelu, sy'n goruchwyllo polisi ac arferion diogelu PLANED. (Gweler yr Atodiad – Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr)

Amcanion

- Nodi sut y bydd PLANED yn cwrdd â'i rwymedigaethau o ran diogelu plant.
- Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, i'r staff, i wirfoddolwyr ac i bobl sy'n mynd i'r afael â gwaith ar ran PLANED fod trefniadau cadarn ar waith i ddiogelu plant.

Egwyddorion

- Mae gan bob plentyn (ni waeth be fo'i gefndir, ei ddiwylliant, ei oed, ei anabledd, ei rywedd, ei ethnigrwydd neu ei gred grefyddol) yr hawl i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, bwlio neu wahaniaethu.
- Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed, esgeulustod, camfanteisio a chamdriniaeth.
- Mae gan yr holl weithwyr a'r holl wirfoddolwyr sy'n gweithio i PLANED, neu gyda PLANED, gyfrifoldeb i amddiffyn plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod, a gweithio mewn ffordd a fydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi eu dymuniadau gorau.
- Bydd PLANED yn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac yn gwneud ei orau i atal sefyllfaoedd lle gallai camdriniaeth, esgeulustod neu niwed ddigwydd.

Cwmpas

Caiff plentyn ei ddiffinio fel rhywun nad yw wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Nid yw hyn yn eithrio person ifanc 16 oed sydd mewn Addysg Bellach neu sy'n aelod o'r Lluoedd Arfog, sydd yn yr ysbyty, sydd mewn sefydliad i droseddwy'r ifanc, neu sydd mewn carchar.

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dyma yw plentyn mewn perygl:

- plentyn sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed;
- plentyn sydd angen gofal a chymorth, pa un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny, ai peidio.

Anhysbysrwydd

Rhaid i staff PLANED fod yn ymwybodol na allant aros yn anhysbys pan gaiff achos ei gyfeirio at y Tîm Asesu Gofal Plant, oni bai y byddai datgelu pwy ydynt yn eu rhoi mewn perygl. Mewn achosion o'r fath, dylent drafod eu pryder ynghylch y perygl a allai ddod i'w rhan gydag aelod o dîm diogelu PLANED a/neu'r Tîm Asesu Gofal Plant.

Cyfrinachedd

Fel rheol gyffredinol, mae'n bwysig i blant gael yr hawl i gyfrinachedd yng nghyswllt yr hyn y byddant yn ei rannu. Fodd bynnag, rhaid deall yr hyn y mae cyfrinachedd yn ei olygu os bydd plentyn yn datgelu ei fod yn cael ei frifo, neu mewn perygl o gael ei frifo. Nid yw pob plentyn yn ymwybodol y bydd yn rhaid rhannu'r hyn y mae wedi'i ddweud, ac efallai y bydd yn dechrau cynhyrfu. Yr unig ffordd y bydd y plentyn yn teimlo'n hyderus i ymddiried mewn aelod o staff, o bosibl, yw os bydd yn credu na fydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu ag eraill. Fodd bynnag, pan fydd plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, mae gan y staff gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant gyda'r asiantaethau statudol penodedig.

Mae'n bwysig i bob aelod o staff fod yn sensitif ac esbonio i'r plentyn fod yn rhaid rhoi gwybod i'r bobl berthnasol, gan roi sicrwydd i'r plentyn mai'r cyfryw bobl yn unig a fydd yn cael gwybod, ac na fydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n gyffredinol. Byddwch yn ymwybodol y bydd y plentyn wedi magu plwc eithriadol i rannu'r ffaith ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, ac y bydd o bosibl yn teimlo emosiynau croes, yn cynnwys euogrwydd.

Un o gyfrifoldebau PLANED yw sicrhau mai'r unig bobl a gaiff fynediad at unrhyw gofnodion diogelu yw'r bobl hynny a chanddynt gysylltiad proffesiynol â'r achos – er enghraifft, yr Uwch-berson Dynodedig a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Ys Uwch-berson Dynodedig yn PLANED ar gyfer diogelu plant yw:

Laura Lloyd

Yn absenoldeb Miss Lloyd, y Prif Swyddog Gweithredol (Iwan Thomas) fydd yr Uwch-berson Dynodedig.

Yr Ymddiriedolwr dros ddiogelu yw: Elizabeth Rawlings

Gweithio mewn partneriaeth

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, ac mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd yr eir i'r afael ag ef i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed mawr. Fel oedolion a/neu weithwyr proffesiynol/gwirfoddolwyr, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles.

Mae diogelu a hyrwyddo lles plant – yn enwedig eu diogelu rhag niwed mawr – yn ddibynnol ar gydweithio effeithiol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol a chanddynt rolau ac arbenigeddau gwahanol.

Bydd plant unigol, yn enwedig rhai o'r plant sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o du allgáu cymdeithasol, angen help cydgysylltiedig gan y sectorau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol plant ac, o bosibl, y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, yn cynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.

I'r plant hynny sy'n dioddef niwed neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed, mae gweithio ar y cyd yn hanfodol er mwyn gallu diogelu a hyrwyddo lles y plentyn/plant; a phan fo angen, helpu i ddod â'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau yn erbyn plant gerbron y llys.

Dylai holl staff PLANED wneud y canlynol:

- Bod yn effro i arwyddion posibl o gamdriniaeth neu esgeulustod;
- Bod yn effro i'r risgiau a allai ddod i ran plant yn sgil camdrinwyr unigol, neu gamdrinwyr posibl;
- Rhannu pryderon ac unrhyw wybodaeth gyda'r Uwch-berson Dynodedig a'r Tîm Asesu Gofal Plant yn syth;
- Cyfrannu at ba gamau bynnag y mae angen eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn;
- Cofnodi unrhyw bryderon a gwybodaeth yn ysgrifenedig ar Ffurflen Amlasiantaethol CYSUR a'i rhoi i'r Uwch-berson Dynodedig o fewn 24 awr.

Ymwybyddiaeth y staff

Tynnir sylw'r holl staff at y polisi hwn fel rhan o'u proses gynefino gychwynnol, a bydd gwybodaeth a diweddariadau'n cael eu rhoi i'r holl staff yn rheolaidd. Bydd PLANED yn trefnu hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Yn achos yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant, rhaid iddynt fynychu Hyfforddiant Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion: Haen 1 a gyflwynir gan Gyngor Sir Penfro.

Bydd yn ofynnol i'r Uwch-berson Dynodedig, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Ymddiriedolwr Diogelu fynychu Hyfforddiant Prosesau ac Amddiffyn Plant: Haen 2 a Hyfforddiant Rheoli Honiadau yn Erbyn Oedolion: Haen 2. Cynhelir yr hyfforddiant hwn hefyd gan Gyngor Sir Penfro.

Chwythu'r Chwiban

Dylai'r holl staff fod yn gyfarwydd â pholisi PLANED ar gyfer chwythu'r chwiban; ac yn achos unrhyw bryderon yn ymwneud â materion diogelu, dylent fod yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt ymgynghori â'r Uwch-berson Dynodedig yn syth. Pe bai'r pryder yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Uwch-berson Dynodedig, dylid ymgynghori â'r Prif Swyddog Gweithredol neu'r Ymddiriedolwr Diogelu. Pe bai PLANED o'r farn fod yr honiad yn ddigon difrifol i gael ei gyfeirio at y Tîm Asesu Gofal Plant, bydd PLANED yn gwneud hynny. Yna, bydd y Tîm Asesu Gofal Plant yn cysylltu â'r Swyddog Dynodedig dros Reoli Honiadau Proffesiynol ar gyfer yr Awdurdod.

Mater diogelu

Mae aelod o staff yn dod i wybod am fater posibl yn ymwneud â diogelu ac mae'n nodi'r manylion yn fanwl ar ddu a gwyn (gweler 'Delio â honiad' i weld sut i wneud hyn yn y ffordd gywir).

**CAM
01**

Cyferio'r mater at yr Uwch-berson Penodedig

Yn awr, dylech gyfeirio'r mater diogelu at yr Uwch-berson Dynodedig trwy e-bost cyn gynted ag y bo modd.

**CAM
02**

Trafod

Bydd yr Uwch-berson Dynodedig yn trafod yr atgyfeiriad diogelu gyda'r Prif Swyddog Gweithredol neu'r Ymddiriedolwr Diogelu. Byddant yn penderfynu gyda'i gilydd a oes angen cyfeirio'r mater at y Tîm Asesu Gofal Plant, ai peidio.

**CAM
03**

Hysbysu'r staff

Bydd yr aelod o staff a gyfeiriodd y mater yn cael gwybod beth yw penderfyniad y tîm diogelu. Os mai 'na' yw'r ateb, bydd rheswm yn cael ei gyflwyno. Yr adeg hon, gall y staff gyfeirio mater yn syth at y Tîm Asesu Gofal Plant os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad y tîm diogelu.

**CAM
04**

Cyfeirio'r mater at y Tîm Asesu Gofal Plant

Bydd yr Uwch-berson Dynodedig yn cyfeirio'r mater diogelu at y Tîm Asesu Gofal Plant, pe bai'r tîm diogelu yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol

**CAM
05**

Atodiad 1

Diffinio Camdriniaeth

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn ffurfiau ar gam-drin plant. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn trwy achosi niwed iddo, neu drwy beidio â chymryd camau i atal niwed. Mae modd i blant gael eu cam-drin mewn lleoliad teuluol, sefydliadol neu gymunedol, gan bobl sy'n eu hadnabod neu, mewn achosion prinnach, gan ddieithryn. Gall plant gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, gan blentyn neu blant.

Camdriniaeth Gorfforol

Gall Camdriniaeth Gorfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol o fath arall i blentyn. Gall camdriniaeth gorfforol ddigwydd hefyd pan fydd rhiant neu warcheidwad yn dweud celwydd am symptomau plentyn neu'n mynd ati'n fwriadol i achosi salwch mewn plentyn.

Camdriniaeth Emosiynol

Cam-drin plentyn yn emosiynol mewn modd parhaus yw camdriniaeth emosiynol – er enghraifft, ysgogi effeithiau niweidiol parhaus a difrifol ar ddatblygiad emosiynol plentyn. Gall gynnwys cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu'n ddigariad, yn annigonol, neu nad ydynt yn werthfawr ond i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion rhywun arall. Efallai y bydd disgwyliadau sy'n amhriodol o ran oed neu ddatblygiad yn cael eu gosod ar y plant. Gall y rhain gynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol y plentyn, yn ogystal ag amddiffyn y plentyn mewn modd eithafol a chyfyngu ar ei allu i archwilio a dysgu, neu rwystru'r plentyn rhag rhyngweithio mewn modd arferol. Gall camdriniaeth emosiynol olygu gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Gall olygu bwlio difrifol a all beri i blant deimlo'n ofnus neu deimlo eu bod mewn perygl, neu gall olygu camfanteisio ar blant neu eu llygru. Mae rhyw lefel o gamdriniaeth emosiynol yn perthyn i bob achos o gam-drin plant; er, fe all ddigwydd ar ei ben ei hun.

Camdriniaeth Rywiol

Mae camdriniaeth rywiol yn cynnwys gorfodi neu hudo plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, gan gynnwys puteindra, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, yn cynnwys gweithredoedd treiddiol (e.e. trais rhywiol, sodomiaeth neu ryw trwy'r geg) neu weithredoedd heb fod yn dreiddiol. Gall gynnwys gweithgareddau heb gyswllt corfforol, fel cynnwys plant yn y broses o edrych ar, neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol.

Esgeulustod

Methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plant yw esgeulustod, ac yn ôl pob tebyg bydd yn amharu'n fawr ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i'r fam yn camddefnyddio sylweddau. Ar ôl i'r plentyn gael ei eni, gall esgeulustod olygu bod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu digon o fwyd a dillad; yn methu â darparu lloches, gan gynnwys gwahardd y plentyn o'r cartref, neu ei adael; yn methu â diogelu plentyn rhag niwed neu berygl corfforol neu emosiynol; yn methu â sicrhau goruchwyliaeth ddigonol, gan gynnwys defnyddio gofalwyr annigonol; neu'n methu â sicrhau mynediad priodol at ofal neu driniaeth feddygol. Ymhellach, gall olygu esgeulustod o ran anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu fethiant i ymateb i anghenion o'r fath.

Appendix 2

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Rhaid rhoi sicrwydd i'r ymddiriedolwyr fod y polisiau, y gweithdrefnau a'r arferion i gyd yn cael eu harchwilio a'u cwestiynu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben. Rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau'r canlynol:

- bod PLANED yn gweithio o fewn yr holl ganllawiau statudol;
- ei fod yn cadw cofnodion manwl gywir;
- ei fod yn ymwybodol o faterion, tueddiadau a themâu'r dydd a'r modd y gall y rhain ddylanwadu ar bolisiau ac arferion diogelu;
- ei fod yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu, yn ogystal â chydymffurfio ag arferion da a deddfwriaethau;
- ei fod yn diweddarau'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran gofynion statudol, arferion da a materion y dydd.

Dylai pob ymddiriedolwr allu gweld yn glir sut y mae PLANED yn mynd ati i reoli dulliau o ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag niwed. Golyga hyn fod yn rhaid i'r ymddiriedolwyr fonitro perfformiad, nid trwy ddefnyddio ystadegau yn unig, ond trwy ddefnyddio gwybodaeth ategol, fel adroddiadau ansoddol. Bydd hyn yn helpu PLANED i ddeall themâu cyffredin a phennu risgiau a bylchau er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â nhw.

Pe bai PLANED yn newid y ffordd y mae'n gweithio – fel gweithio mewn ardal newydd neu mewn ffordd wahanol – dylai'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- adolygu'r polisiau presennol a sicrhau eu bod yn addas;
- ystyried a oes angen polisiau ychwanegol i gwmpasu sefyllfaoedd neu risgiau newydd;
- cofnodi'r trafodaethau a'r penderfyniadau hyn fel rhan o'r gweithdrefnau rheoli risgiau.

Gall yr ymddiriedolwyr ddefnyddio nifer o bethau i'w helpu gyda'r gwaith archwilio a sicrhau, yn cynnwys:

- cofnodi'r risgiau y mae PLANED yn eu hwynebu a sut y caiff y rhain eu rheoli;
- siarad â phobl yn PLANED i wneud yn siŵr eu bod yn deall sut i grybwyll pryderon a chael adborth ar brofiadau'r gorffennol;
- cynnal archwiliadau ar y safleoedd y mae PLANED yn gweithio arnynt a gweld unrhyw waith papur angenrheidiol;
- gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau statudol;
- cynlluniau hyfforddi ar gyfer ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn pobl rhag niwed;
- cofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl ar unrhyw lefel;
- trefnu eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd, yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn pobl rhag niwed;
- adolygu sampl o bryderon y gorffennol, arolygiadau neu adolygiadau allanol, er mwyn gweld a oes yna wersi i'w dysgu ac er mwyn sicrhau yr ymdriniwyd yn briodol â nhw.

Atodiad 3

Diogelu yn ystod galwadau fideogynadledda

'Zoom is the leader in modern enterprise video communications, with an easy, reliable cloud platform for video and audio conferencing, chat, and webinars across mobile, desktop, and room systems' (<https://zoom.us/>). Mae PLANED wedi prynu pecyn sy'n ein galluogi i gynnal cyfarfodydd o unrhyw hyd gyda hyd at 100 o gyfranogwyr gwadd. Nid oes yn rhaid i'r cyfranogwyr gofrestru ar Zoom er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid iddynt lawrlwytho ap Zoom.

Wrth ddefnyddio'r offeryn hwn, mae diogelu lles y plant a'r staff yn hanfodol, a bydd hyn yn cael blaenoriaeth ar unrhyw ofynion eraill. Mae'n hanfodol inni reoli risgiau mewn perthynas â chynnwys, cyswllt ac ymddygiad wrth gynnal cyfarfodydd ar-lein/galwadau cynadledda gyda phlant. Byddwn yn cadw at bolisiau a gweithdrefnau diogelu cyffredinol PLANED wrth gynnal cyfarfodydd ar-lein/galwadau cynadledda gyda phlant, gan roi ystyriaeth ychwanegol i risgiau, preifatrwydd a chaniatâd.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan y rhiant/gofalwr **BOB AMSER** ar gyfer unrhyw blentyn sy'n dymuno cymryd rhan mewn cyfarfod ar-lein/galwad gynadledda cyn mynd ati i anfon gwahoddiad ato a'i alluogi i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein/galwadau cynadledda. Dylid cadw'r caniatâd hwn fel tystiolaeth, a dylai'r staff fod yn ymwybodol fod gan rieni a phlant yr hawl i dynnu'r caniatâd yn ôl unrhyw adeg. Gall pawb dros 18 oed roi ei ganiatâd ei hun a'i dynnu'n ôl unrhyw adeg.

Dylai'r cyfranogwyr a'r staff sicrhau eu bod wedi'u gwisgo'n briodol, eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd o'u cwmpas a'u bod yn dweud wrth oedolion a phobl eraill yn y tŷ eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfod ar-lein/galwad gynadledda. Yn arbennig, dylai'r staff fod yn ymwybodol o gyfrinachedd a phreifatrwydd y plant. Rhaid i'r cyfranogwyr a'r staff sicrhau eu bod yn eistedd mewn lle priodol, ac na ellir adnabod unrhyw beth yn eu cartrefi.

I bob pwrpas, trwy ddefnyddio'r plattform hwn rydym yn mynd i mewn i dai a mannau personol y plant. Pe bai'r staff yn teimlo bod yr amgylchedd yn amhriodol, rhaid delio â hyn yn syth. Dylid gwneud hyn trwy ddefnyddio nodwedd sgwrsio Zoom i anfon sgwrs breifat at y cyfranogwr neu'r aelod o staff, er mwyn esbonio'r pryderon. Pe bai'r unigolyn dan sylw yn gwrthod gweithredu ar sail y pryder, yna dylai'r arweinydd ei ddiarddel o'r cyfarfod trwy ddefnyddio'r nodwedd 'diarddel' (*expel*).

Dylai dau aelod o staff PLANED fod yn gysylltiedig ag unrhyw gyfarfod ar-lein/galwad gynadledda gyda phlant. Dylai'r aelodau hyn o staff ymuno â'r cyfarfod o leiaf 20 munud cyn yr amser penodedig er mwyn trefnu'r nodweddion diogelwch canlynol (dim ond ar ôl i'r cyfarfod gychwyn y bydd y nodweddion hyn yn cael eu galluogi):

- Analluogi'r fideo a'r sain ar gyfer y cyfranogwyr pan fyddant yn ymuno;
- Analluogi'r nodwedd 'rhannu sgrin' ar gyfer y cyfranogwyr;
- Trefnu bod rheolau'r cyfarfod yn cael eu harddangos ar y sgrin;
- Symud y cyfranogwyr i'r 'ystafell aros' ar ôl iddynt ymuno â'r cyfarfod, fel na fydd unrhyw blant ar eu pen eu hunain gydag oedolion;
- Cyfyngu ar y nodwedd sgwrsio er mwyn sicrhau mai'r unig bethau y bydd modd i'r cyfranogwyr eu gwneud yw anfon neges at y cyflwynydd/arweinydd neu anfon neges gyhoeddus at yr holl gyfranogwyr.

Dylid ychwanegu pob cyfarfod ar-lein/galwad gynadledda at galendrau unigol y staff, a'u marcio'n glir.

Efallai y bydd cyfarfodydd ar-lein/galwadau cynadledda gyda phlant yn cael eu recordio os bydd yr holl gyfranogwyr wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Ni ddylai unrhyw aelod o staff PLANED gynnal cyfarfod ar-lein/galwad gynadledda bersonol gyda phlentyn. Fodd bynnag, pe bai plentyn ar ddiwedd cynhadledd fideo grŵp yn gofyn am gael siarad ag aelod o staff yn breifat, dylid rhoi gwybod i'r plentyn y bydd yn rhaid i aelod arall o staff fod yn bresennol. Mewn achosion o'r fath, dylid gofyn caniatâd i recordio'r sesiwn hefyd. Os na fydd hyn yn bosibl, dylid gwneud trefniadau eraill rywbryd eto i siarad â'r plentyn gydag oedolyn arall yn bresennol.

Ar ôl y cyfarfod ar-lein/galwad gynadledda, dylid sicrhau bod cyfle i siarad â'r aelodau eraill o staff a oedd yn bresennol er mwyn trafod unrhyw faterion neu bryderon. Pe bai gan aelod o staff unrhyw bryderon, dylai ddilyn Gweithdrefnau Diogelu PLANED.

Appendix 4

Delio â honiad

Efallai y byddwch yn bryderus am blentyn oherwydd rhywbeth rydych wedi'i weld neu ei glywed, neu efallai y bydd plentyn wedi datgelu rhywbeth ichi. Pe bai plentyn yn datgelu gwybodaeth ichi, dylech ddilyn y canllawiau canlynol:

- Peidiwch ag addo cyfrinachedd; mae gennych ddyletswydd i rannu'r wybodaeth hon gyda'r Uwch-berson Dynodedig. Yna, efallai y bydd yr Uwch-berson Dynodedig yn cyfeirio'r achos at y Tîm Asesu Gofal Plant, pe bai angen.
- Gwrandewch ar yr hyn a gaiff ei ddweud, heb ddangos sioc nac anghrediniaeth.
- Derbyniwch yr hyn a gaiff ei ddweud.
- Rhowch sicrwydd i'r plentyn, ond dim ond i'r graddau ag y bo hynny'n onest. Peidiwch â gwneud addewidion na fydd modd ichi eu cadw, o bosibl, e.e. 'Fe fydd popeth yn iawn nawr', 'Fydd dim rhaid iti weld y person yna eto'.
- Ewch ati i dawelu meddwl y plentyn a lleihau ei euogrwydd, pe bai'r plentyn yn cyfeirio at hynny. Er enghraifft, fe allech ddweud, 'Nid arnat ti mae'r bai'.
- Peidiwch â holi'r plentyn; nid eich cyfrifoldeb chi yw ymchwilio i'r mater.
- Peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol (e.e. Wnaeth e gyffwrdd â dy rannau preifat di?); gofynnwch gwestiynau agored fel 'Oes gen ti unrhyw beth arall i'w ddweud wrthyf i?', 'Beth ddigwyddodd?', 'Pryd wnaeth e ddigwydd?', 'Ble ddigwyddodd e?', 'Sut digwyddodd e?', 'Pwy wnaeth hyn?'.
- Peidiwch â gofyn i'r plentyn ailadrodd yr wybodaeth wrth aelod arall o staff.
- Esboniwch yr hyn y bydd yn rhaid ichi ei wneud nesaf ac â phwy y bydd yn rhaid ichi siarad (y bydd yn rhaid ichi roi gwybod i'r Uwch-berson Dynodedig, y Tîm Asesu Gofal Plant a'r Heddlu pe bai hynny'n berthnasol).
- Gwnewch nodiadau os oes modd, neu gwnewch gofnod o'ch sgwrs cyn gynted ag y bo modd wedyn.
- Cofnodwch y dyddiad, yr amser, y lle, unrhyw ymddygiad dieiriau ac unrhyw eiriau a ddefnyddiwyd gan y plentyn (peidiwch ag aralleirio).
- Cofnodwch ddatganiadau a phethau y gwnaethoch sylwi arnynt, yn hytrach na dehongliadau neu ragdybiaethau.

Beth bynnag yw natur eich pryderon, trafodwch nhw gyda'r Uwch-berson Dynodedig cyn gynted ag y bo modd.

Pa wybodaeth y bydd yr Uwch-berson Dynodedig ei hangen I geyfeirio achos?

Bydd yn rhaid ichi gyflwyno cymaint o wybodaeth ag y bo modd. Bydd hyn yn cynnwys enw llawn y plentyn, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad, ei ysgol, ei feddyg teulu, yr iaith a siaredir ganddo, unrhyw anableddau sydd ganddo, a manylion y rhieni. Os yw'r plentyn yn mynychu un o ddigwyddiadau PLANED heb oruchwyliaeth ei rieni/gofalwyr, dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ar Ffurflen Caniatâd Rhieni PLANED. Fodd bynnag, peidiwch â phoeni os na fydd yr holl fanylion hyn gennych. Dylech barhau i gyfeirio'r mater ar lafar yn ddi-oed at yr Uwch-berson Dynodedig.

Dylech ategu'r atgyfeiriad llafar â gwybodaeth ysgrifenedig (gan ddefnyddio Ffurflen Amlasiantaethol CYSUR), o fewn 24 awr.

Atodiad 5

Pryd I gysylltu â'r heddlu

Os oes gan unrhyw aelod o staff achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl, dylid cyfeirio'r mater cyn gynted ag y bo modd at yr Uwch-berson Dynodedig. Fodd bynnag, os oes pryderon brys i'w cael ynglŷn â diogelwch plentyn, neu os oes trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn, dylai'r staff gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed trwy ffonio 999, er mwyn amddiffyn y plentyn/plant rhag y perygl o ddioddef niwed difrifol, ac yna dylent roi gwybod i'r Uwch-swyddog Dynodedig.

Os byddwch yn ansicr a oes trosedd wedi'i chyflawni, ceisiwch gyngor gan yr Heddlu trwy ffonio 101.

Atodiad 6

Rheoli honiadau yn erbyn oedolion

Mae PLANED wedi ymrwymo i roi gweithdrefnau effeithiol ar waith mewn perthynas ag adnoddau dynol a recriwtio, yn cynnwys archwilio staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio gyda nhw. Pan fo'n briodol, bydd staff allweddol sy'n gysylltiedig â phrosesau recriwtio yn mynd i'r afael â Hyfforddiant Recriwtio Mwy Diogel.

Fodd bynnag, efallai y bydd achosion i'w cael pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff neu wirfoddolwr. Mae honiadau yn erbyn pobl sy'n gweithio gyda phlant – boed y bobl hyn yn mynd i'r afael â swyddogaeth am dâl neu â swyddogaeth ddi-dâl – yn cwmpasu ystod eang o amgylchiadau. Gall yr honiadau ymwneud ag ymddygiad yr unigolyn yn y gwaith, ei ymddygiad gartref neu ei ymddygiad mewn lleoliad arall.

Mae gan holl weithlu PLANED gyfrifoldeb i ddiogelu plant, ac mae hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin gan aelod o staff neu wirfoddolwr. Felly, mae dyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â chamdriniaeth neu esgeulustod posibl yn berthnasol yn y sefyllfaeod hyn. Ymhellach, mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys sefyllfaeod pan gaiff chamdriniaeth ei hamau yn unig.

Os oes gan aelod o staff bryderon ynghylch lles plentyn, mae'n bwysig iddo beidio ag anwybyddu neu ddiystyru ei amheuron ynglŷn ag aelod arall o weithlu PLANED a allai fod yn cam-drin, yn esgeuluso neu'n achosi niwed i blentyn. Ar gyfer achosion lle honnir bod pobl sy'n gweithio gyda phlant, neu'n gofalu am blant, wedi cam-drin plentyn, rhaid cymryd yr achosion hyn o ddifrif. Rhaid cyflwyno adroddiadau am honiadau o'r fath yn ysgrifenedig i'r Uwch-berson Dynodedig o fewn 24 awr.

Atodiad 7

Cyflwyno atgyfeiriad diogelu

Os oes gan aelod o staff bryderon ynglŷn â lles plentyn, dylid rhoi gwybod i'r Uwch-berson Dynodedig yn syth. Bydd tîm diogelu PLANED yn ceisio cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant ar 01437 776444 ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyflwyno unrhyw atgyfeiriad dilynol i'r Tîm Asesu Gofal Plant. Os na fydd yr Uwch-berson Dynodedig ar gael, dylid cysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredol. Os na fydd y Prif Swyddog Gweithredol ar gael ychwaith, **ni ddylai hyn arwain at unrhyw oedi cyn cymryd camau**. Dylai'r aelod o staff geisio cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant yn uniongyrchol, gan roi gwybod i'r Uwch-berson Dynodedig neu'r Prif Swyddog Gweithredol am y cyngor a/neu'r atgyfeiriad cyn gynted ag y bo modd.

Os yw'r plentyn ar fin gadael y safle, dylid rhoi gwybod i'r Uwch-berson Dynodedig. Bydd yr Uwch-berson Dynodedig, drwy ymgynghori â'r Tîm Asesu Gofal Plant, yn penderfynu ar y camau nesaf.

Os bydd y Tîm Asesu Gofal Plant yn cynghori y dylid cyflwyno atgyfeiriad ysgrifenedig i'r Tîm Asesu Gofal Plant, rhaid defnyddio Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol i wneud hyn (gweler yr Atodiad) a rhaid cwblhau'r dasg hon o fewn 48 awr.

Os oes anaf wedi digwydd – pa un a oes lle i gredu bod yr anaf wedi digwydd yn sgil camdriniaeth, ai peidio – dylid cymryd y camau canlynol:

- Os yw'r anaf yn ddifrifol ac os bydd angen sylw meddygol brys, dylid ffonio am ambiwlans a mynd â'r plentyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.
- Os honnir mai'r rhiant neu'r gofalwr sy'n gyfrifol am achosi'r anaf neu'r gamdriniaeth, neu os oes achos cryf dros gredu hynny, rhaid rhoi gwybod i'r **Tîm Asesu Gofal Plant yn syth**, oherwydd efallai y bydd y tîm yn dymuno trefnu i'r plentyn gael ei archwilio gan Baediatregydd ar ôl iddo gyrraedd yr ysbyty.
- Trafodwch gyda'r **Tîm Asesu Gofal Plant** a'r **Heddlu** pwy fydd yn gyfrifol am benderfynu pryd y bydd y rhieni / gofalwyr yn cael gwybod.

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch-berson Dynodedig yn syth am y camau uchod. Pe bai'r staff yn methu â rhoi gwybod am achos posibl o gam-drin plentyn, efallai y bydd camau disgyblu yn cael eu cymryd yn eu herbyn.

Dylid rhoi'r weithdrefn ganlynol ar waith ym mhob sefyllfa pan honnir bod unigolyn sy'n gweithio gyda phlentyn wedi:

- Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn, neu a all fod wedi niweidio plentyn;
- Cyflawni trosedd, o bosibl, yn erbyn plentyn, neu drosedd yn ymwneud â phlentyn;
- Ymddwyn tuag at blant neu blentyn mewn modd sy'n dangos ei fod ef/hi yn anaddas i weithio gyda phlant.

Bydd yr Uwch-berson Dynodedig yn trafod y mater gyda'r Tîm Asesu Gofal Plant er mwyn gweld pa gamau y dylid eu cymryd, a phan fo angen bydd yn cael manylion pellach am yr honiad a'r amgylchiadau sy'n berthnasol i'r honiad. Ymhellach, dylai'r drafodaeth ystyried a oes yna dystiolaeth/gwybodaeth a all gadarnhau bod yr honiad yn anwir neu'n ddi-sail, a oes angen cyflwyno atgyfeiriad ysgrifenedig i'r Tîm Asesu Gofal Plant a/neu a oes angen cymryd camau disgyblu.

Yn achos rhai honiadau, fe fyddant mor ddifrifol nes peri bod angen eu cyfeirio'r syth at yr Heddlu. Gweler adran berthnasol y polisi hwn i weld pryd y bydd yn briodol rhoi gwybod i'r Heddlu.

Yn achos materion diogelu, dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at yr Uwch-berson Dynodedig, ac yna bydd yr Uwch-berson Dynodedig yn eu cyfeirio ar ran yr aelod o staff, pe bai hynny'n briodol. Pe bai

aelod o staff angen cyflwyno atgyfeiriad diogelu uniongyrchol, dylai gysylltu â'r Tîm Asesu Gofal Plant trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Y Tîm Asesu Gofal Plant (CCAT)
Cyngor Sir Benfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Swyddog ar Ddyletswydd y Tîm Asesu Gofal Plant: 01437 776444

Canolfan Cyswllt y Tîm Asesu Gofal Plant: 01437 764551

Gwasanaethau Cymdeithasol y tu allan I oriau: 03003332222

E-bost y Tîm Asesu Gofal Plant: CCAT@pembrokeshire.gov.uk

Atodiad 8

Adnoddau Defnyddiol

Gellir dod o hyd i'r adnoddau canlynol yn y ffolder Diogelu ar yriant a rennir PLANED:

- Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol CYSUR
- Gwybodaeth Ategol: Atgyfeirio Amlasiantaethol CYSUR
- Briff 7 Munud: Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Adolygiad

Bydd y polisi a'r weithdrefn yma'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys gwirio rhifau ffôn, gwirio bod manylion y staff yn gywir, a chyflwyno unrhyw ddiweddariadau a fydd yn ofynnol yn sgil newidiadau mewn polisiâu lleol neu genedlaethol.